



Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr 2018-2019

*Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid (ym mhob cam cynhyrchu, prosesu, storio, cludo a dosbarthu, gan gynnwys mewnforio a chynhyrchu bwyd anifeiliaid cynradd)
Gorfodi cyfraith hylendid bwyd anifeiliaid ar lefel cynhyrchu cynradd*

Awdur: Julie Benson
Rôl: Rheolwr Maes Bwyd Anifeiliaid, Is-adran Rheoleiddio
E-bost: julie.benson@food.gov.uk
Ffôn symudol: 07500951312

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu:

- Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ¹(ASB) ar gyfer Cymru a Lloegr mewn perthynas â bwyd anifeiliaid a gorfodi cyfraith hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd;
- Beth mae'r ASB yn ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran gweithredu, lle bo'n berthnasol, y Blaenoriaethau hyn fel rhan o'u rhaglen ymyrryd flynyddol.

Mae'r Blaenoriaethau wedi'u:

- Llywio gan Asesiad o'r Bygythiad i Fwyd Anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig 2017 ([UK AFTA](#)), a gafodd ei gomisiynu a'i ariannu gan yr ASB a'i lunio gan Dîm Gwybodaeth (*Intelligence*) Safonau Masnach Cenedlaethol;
- Datblygu mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr awdurdodau lleol; Safonau Masnach Cenedlaethol; Penaethiaid Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol; aelodau'r Panel Amaethyddiaeth Cenedlaethol ([NAP](#)) a'r Panel Bwyd Anifeiliaid mewn Porthladdoedd Cenedlaethol ([NAFPP](#)).

Drwy ymgorffori'r Blaenoriaethau mewn rhaglen o reolaethau swyddogol, y nod yw diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid trwy annog gwelliannau parhaus yn lefelau cydymffurfio gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid drwy orfodi yn seiliedig ar wybodaeth (*intelligence*).

Mae amcanion y blaenoriaethau fel a ganlyn:

- Sicrhau cysondeb ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid gonest a diwyd, sydd er budd y diwydiant bwyd anifeiliaid cyfan;
- Lleihau beichiau di-angen ar fusnes drwy ganolbwyntio gweithgarwch awdurdodau lleol ar feysydd cytunedig sy'n peri'r mwyaf o fygythiad i'r cyhoedd ac iechyd anifeiliaid;
- Creu dull hyblyg ac effeithiol o ymyrryd sy'n seiliedig ar wybodaeth (*intelligence*), a chynnal lefelau priodol o fonitro cydymffurfiaeth;
- Gwireddu nod strategol yr ASB o '[Fwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo](#)';
- Gwella ansawdd a chysondeb Rheolaethau Swyddogol.

Bydd y blaenoriaethau'n cael eu hadolygu bob chwe mis yng ngoleuni materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn, neu o ganlyniad i wybodaeth arall a dderbynnir gan yr ASB mewn perthynas â pherygl i bobl, iechyd a lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Bydd angen mynediad at fforwm y Gymuned Amaethyddiaeth Genedlaethol (Hwb Gwybodaeth), er mwyn gweld y canllawiau ACTSO y cyfeirir atynt drwy gydol y

¹ <http://www.food.gov.uk/> – cliciwch ar 'Cymraeg'

Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol. Disgwylir i swyddogion bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol ymgysylltu â'r Hwb Gwybodaeth – Cymuned Amaeth Genedlaethol².

² <https://khub.net/>

Y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer 2018/19³

Mae'r pum blaenoriaeth cyntaf yn ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid (ym mhob cam cynhyrchu, prosesu, storio, cludo a dosbarthu, gan gynnwys mewnforio a chynhyrchu cynradd). Mae'r chweched blaenoriaeth yn ymwneud â gorfodi cyfraith hylendid bwyd anifeiliaid ar lefel cynhyrchu cynradd.

Blaenoriaeth 1

- Dilysu presenoldeb a chywirdeb labeli bwyd anifeiliaid, sydd â'r potensial i beryglu iechyd pobl a/neu anifeiliaid

Blaenoriaeth 2

- Dilysu systemau rheoli diogelwch bwyd effeithiol mewn sefydliadau Atodiad II gyda ffocws ar fusnesau sy'n cyflenwi deunydd a arferai fod yn fwyd neu gyd-gynhyrchion

Blaenoriaeth 3

- Rhannu gwybodaeth, cyfathrebu a chyfnwid gwybodaeth (information ac intelligence) yn effeithiol er mwyn cefnogi rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid effeithiol.

Blaenoriaeth 4

- Monitro llwythi (consignments) o fwyd anifeiliaid sy'n dod o du allan i'r Undeb Ewropeaidd wrth y pwyntiau mynediad yn effeithiol

Blaenoriaeth 5

- Datblygu rhaglenni samplu rhanbarthol seiliedig ar risg

Blaenoriaeth 6

- Mynd ati i nodi gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu bwyd cynradd yn effeithiol, a'u cofrestru'n briodol

³ Nid yw'r blaenoriaethau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol.

Blaenoriaeth 1: Dilysu presenoldeb a chywirdeb labeli bwyd anifeiliaid, sydd â'r potensial i beryglu iechyd pobl a/neu anifeiliaid

- 1.1 Mae gwybodaeth ar labeli bwyd yn hanfodol er mwyn galluogi gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid ar draws y gadwyn bwyd anifeiliaid i wneud y defnydd gorau o'r deunyddiau maent yn eu defnyddio i gynhyrchu bwyd anifeiliaid neu fel bwyd anifeiliaid. Mae presenoldeb a chywirdeb gwybodaeth labelu yn hanfodol wrth sicrhau y caiff bwyd anifeiliaid ei roi i'r rhywogaeth gywir, oed cywir yr anifail, ac ar lefel nad yw'n effeithio ar iechyd yr anifail, na bod canlyniadau niweidiol i iechyd pobl na'r gallu i olrhain. Mae presenoldeb codau swp (*batch codes*) yn sicrhau bod modd galw a thynnu cynhyrchion yn ôl yn gyflym os oes digwyddiad diogelwch bwyd anifeiliaid.
- 1.2 Mae disgwyl i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r agweddau canlynol ar gydymffurfio a labelu, gan ystyried Codau Arfer Da yr Undeb Ewropeaidd ar labelu ⁴a [chanllawiau'r ASB](#):
- a) Nodi gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy'n gwerthu bwyd anifeiliaid drwy gyfathrebu o bellter, sicrhau eu bod wedi'u cofrestru/cymeradwyo'n briodol, ac yn darparu manylion labelu penodol fel sy'n ofynnol yn ôl Erthygl 11(3) [Rheoliad \(CE\) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio](#)⁵;
 - b) Gwirio cywirdeb honiadau fel yr amlinellir yn Erthygl 13 o Reoliad (CE) Rhif 767/2009;
 - c) Sicrhau bod cyfarwyddiadau defnyddio yn ddigonol ac yn briodol er mwyn osgoi mynd yn uwch na'r Terfynau Uchaf a Ganiateir ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid;
 - d) Sicrhau bod gwybodaeth sy'n cefnogi'r gallu i olrhain, mewn achos o ddiogelwch bwyd anifeiliaid, yn bresennol ac yn gywir;
 - e) Sicrhau nad yw'r ffordd y mae bwyd anifeiliaid yn cael ei labelu neu ei gyflwyno yn camarwain y defnyddiwr;
 - f) Gwirio bod y deunyddiau bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yng [nghofrestr](#) yr Undeb Ewropeaidd yn briodol i'w defnyddio ac, yn yr un modd, rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - g) Gwirio bod yr ychwanegion sy'n bresennol mewn bwyd anifeiliaid wedi'u [hawdurdodi](#)⁶⁷ yn unol â [Rheoliad \(CE\) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid](#)⁸.

⁴ Canllawiau [bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd](#) a [bwyd anifeiliaid anwes](#)

⁵ https://ec.europa.eu/food/safety/animal-feed/feed-marketing_en

⁶ http://ec.europa.eu/food/safety/animal-feed/feed-additives/authorisation-types-withdrawal_en

⁷ https://ec.europa.eu/food/sites/food/files/safety/docs/animal-feed-eu-req-comm_register_feed_additives_1831-03.pdf

⁸ Dylid cyfeirio unrhyw anghysondebau mewn labeli bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegion penodol e.e. cocsidiostatau, histomonostatau a hyrwyddwyr tyfiant nad ydynt yn wrthfotig at y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol

Blaenoriaeth 2: Dilysu systemau rheoli diogelwch bwyd effeithiol mewn sefydliadau Atodiad II gyda ffocws ar fusnesau sy'n cyflenwi deunydd a arferai fod yn fwyd neu gyd-gynhyrchion

- 2.1 Yn aml, caiff bwyd anifeiliaid ei halogi wrth i fwyd o un swp drosglwyddo i'r swp nesaf, wrth ei storio'n amhriodol, wrth gymysgu neu baratoi dognau anifeiliaid, drwy fethu â glanhau offer yn ddigonol neu os nad yw'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn gweithredu HACCP yn effeithiol.
- 2.2 Bob blwyddyn yn y DU, mae oddeutu 660,000 o dunnelli o gyn-fwydydd yn cael eu prosesu fel bwyd anifeiliaid, gwerth £110 miliwn⁹. O fewn y Deyrnas Unedig, mae Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), yn parhau i annog busnesau yn y gadwyn cyflenwi bwyd i ymrwmo i'r cytundeb Courtauld. Mae'r cytundeb yn anelu at wella effeithiolrwydd adnoddau a lleihau effaith garbon sector groser y DU, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn yr ymdrech i leihau gwastraff bwyd drwy annog a datblygu ei ddefnydd fel bwyd anifeiliaid¹⁰.
- 2.3 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweld yr arfer o brosesu 'deunydd a arferai fod yn fwyd' yn gyfraniad pwysig tuag at gyrraedd y Nodau Datblygu Cynaliadwy ar leihau gwastraff. Gellir defnyddio gwastraff bwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl at ddibenion bwyd anifeiliaid ac amcangyfrifir bod modd dyblu'r swm sy'n cael ei brosesu yn yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd¹¹.

Cyflenwyr deunydd a arferai fod yn fwyd a chyd-gynhyrchwyr

- 2.4 Wrth ystyried y canllawiau perthnasol ym mharagraff 2.6, mae disgwyl i awdurdodau lleol:
 - a) Roi blaenoriaeth i nodi gweithgynhyrchwyr bwyd a diod yn ogystal â manwerthwyr sydd ynghlwm â chyflenwi cyd-gynhyrchion a/neu deunydd a arferai fod yn fwyd (bwyd dros ben) i'r gadwyn bwyd anifeiliaid a chynnwys y rhain yn eu rhaglenni ymyrryd a samplu drwy ymgysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol yn eu hardal sy'n gyfrifol am gadw cofrestrau o sefydliadau busnes bwyd o dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwyd;
 - b) Sicrhau bod ymyriadau mewn busnesau sydd ynghlwm â chyflenwi cyd-gynhyrchion a/neu deunydd a arferai fod yn fwyd yn cynnwys archwilio systemau cofnodedig i reoli diogelwch bwyd (cynlluniau HACCP lle mae'r rhain yn cael eu defnyddio), gan dalu sylw arbennig at:
 - Nodi pwyntiau rheoli er mwyn sicrhau bod deunydd yn addas i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid ac nad yw'n cynnwys eitemau megis cig, pysgod a physgod cregyn (a chynhyrchion sy'n eu cynnwys neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â nhw)¹²;
 - Mae proses briodol ar waith er mwyn cadw'r deunydd ar wahân i ddeunydd nad yw ar gyfer bwyd anifeiliaid;
 - Bod â rhaglen hyfforddi gofnodedig ar gyfer staff sy'n gyfrifol am ddelio â chyn-fwydydd;

⁹ <http://www.wrap.org.uk/content/using-surplus-food-animal-feed>

¹⁰ <http://www.wrap.org.uk/content/courtauld-commitment-2025>

¹¹ https://ec.europa.eu/food/safety/food_waste/eu_actions_en

¹² Mae rhagor o wybodaeth ar fwyd dros ben sy'n addas ar gyfer bwyd anifeiliaid ar gael drwy: <https://www.gov.uk/how-food-businesses-must-dispose-of-food-and-former-foodstuffs>

- Bod y deunydd yn cael ei gyflenwi i sefydliad bwyd anifeiliaid cofrestredig;
- Lle bo'r deunydd yn fath o gyn-fwyd sy'n cynnwys deunydd pecynnu safon bwyd i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid, bod y deunydd yn cael ei drin ymhellach mewn busnes bwyd anifeiliaid sy'n arbenigo mewn cael gwared ar ddeunydd pecynnu o fwyd dros ben¹³;
- Yn achos y rheiny sy'n prosesu deunydd a arferai fod yn fwyd yn fwyd anifeiliaid, sicrhau bod eu cyflenwyr a'u dosbarthwyr wedi'u cofrestru fel busnesau bwyd anifeiliaid.

Busnesau bwyd anifeiliaid eraill y mae'n rhaid iddynt weithredu systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid

2.5 Wrth ystyried y canllawiau perthnasol ym mharagraff 2.6, mae disgwyl i awdurdodau lleol:

- a) Flaenoriaethu bod systemau priodol ar waith er mwyn lleihau croeshalogi rhwng sypiau o fwyd anifeiliaid (yn enwedig mewn perthynas â'r rheiny sy'n cynnwys cocsidiostatau, meddyginiaethau milfeddygol neu [ychwanegion](#) sydd â lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer rhai rhywogaethau penodol), yn unol â [phrotocolau](#) a [chanllawiau](#) samplu'r ASB;
- b) Sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn deall gofynion cyfreithiol, yn cyflwyno, yn cynnal ac yn adolygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd, fel sy'n briodol, gan roi ystyriaeth i natur, maint a graddfa'r busnes. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar y canlynol:
 - Archwilio systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid ysgrifenedig;
 - Nodi peryglon i sicrhau bod yr holl gamau yn y broses wedi'u hystyried a bod y broses o grwpio unrhyw gamau (e.e. ystyried cynhwysion unigol) yn briodol ac nad yw'n cael ei gwneud mewn modd sy'n anwybyddu peryglon neu eu cymhwyso'n anghywir;
 - Bod unrhyw Bwyntiau Rheoli Critigol a nodir yn cael eu diffinio a'u rheoli yn gywir. Lle mae'r Pwynt Rheoli Critigol yn cael ei reoli gan weithdrefn ofynnol, dylid trafod yr angen am y Pwynt Rheoli Critigol perthnasol â'r busnes bwyd anifeiliaid;
 - Mae rhaglenni samplu priodol ar waith yn y busnes bwyd anifeiliaid i wirio cydymffurfiaeth â'r lefelau uchaf o sylweddau annymunol a ganiateir mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid ac ychwanegion. Dylai'r gwiriadau hyn hefyd gynnwys archwiliad o ganlyniadau dadansoddi ac ystyried a gymerwyd camau priodol lle canfyddir bod cynnyrch yn anfodddhaol e.e. hysbysu'r awdurdodau cymwys sy'n gyfrifol am orfodi bwyd anifeiliaid yn unol ag Erthygl 20 (3) Rheoliad (CE) Rhif 178/2002;
 - Sicrhau bod cyflenwyr sefydliadau bwyd anifeiliaid unigol wedi'u cofrestru fel sefydliadau bwyd anifeiliaid eu hunain. Byddai'n briodol archwilio rhestrau cyflenwyr cwsmeriaid i sefydlu pwy sy'n cyflenwi'r busnes gyda deunyddiau a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid neu borthiant i'w ddosbarthu;
 - Yn achos y cwmnïau hynny sy'n cyflenwi ychwanegion neu rag-gymysgeddau, dylid cynnal gwiriadau i ganfod a yw'r ALI lle maent wedi'u lleoli yn gwybod am ffermydd

¹³ Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth ar bresenoldeb deunydd pecynnu safon bwyd mewn bwyd anifeiliaid ym mis Medi 2013: <http://multimedia.food.gov.uk/multimedia/pdfs/enforcement/enf-e-13-040.pdf>

sy'n derbyn y fath ddeunydd a bod y cod gweithgarwch cofrestredig ar gyfer ffermydd o'r fath yn briodol;

- Craffu ar systemau olrhain i sicrhau bod cynhyrchion nad ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid yn cael eu dargyfeirio i'r gadwyn fwyd/bwyd anifeiliaid.

2.5 Mae'r canllawiau canlynol ar gael i roi cymorth i ALLau:

- Datblygwyd [canllawiau](#) cymuned ar arfer da yn unol ag Erthygl 22 [Rheoliad \(CE\) Rhif 183/2005](#) sy'n gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid;
- [Safonau Codex Alimentarius](#) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid;
- [PAS 222:2011](#) Rhaglenni sy'n ofynnol ar gyfer diogelwch bwyd wrth weithgynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid;
- Canllawiau'r ASB ar [gymysgu ychwanegion a rhag-gymysgeddau yn uniongyrchol mewn bwyd anifeiliaid a chymysgu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ag ychwanegion a gofynion y Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid mewn perthynas â HACCP](#) ar gyfer ffermwyr;
- [Canllawiau](#) Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Ewrop a gyhoeddwyd gan Ffederasiwn Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Ewrop ar arfer da ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd a rhag-gymysgeddau ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd;
- [Canllawiau](#) cymuned yr Undeb Ewropeaidd ar arfer da ar gyfer gweithredwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau;
- [Canllawiau](#) yr Undeb Ewropeaidd ar arfer da ar gyfer gweithgynhyrchu deunyddiau bwyd anifeiliaid diogel;
- [Canllawiau](#) yr Undeb Ewropeaidd ar arferion hylendid da ar gyfer casglu, storio, masnachu a chludo grawnfwydydd, hadau olew, crydau protein, cynhyrchion planhigion eraill a chynhyrchion sy'n dod ohonynt;
- [Cod Ymarfer Defra](#) ar gyfer rheoli salmonela wrth gynhyrchu, storio a throsglwyddo bwyd anifeiliaid cyfansawdd, rhag-gymysgeddau, deunyddiau bwyd anifeiliaid ac ychwanegion bwyd anifeiliaid;
- [Canllawiau](#) Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol ar weithredu egwyddorion HACCP – canllawiau ymarferol ar gyfer y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth;
- [Canllawiau'r](#) ASB ar y gofynion ar gyfer busnesau bwyd a diod sy'n cyflenwi deunyddiau i'w defnyddio fel bwyd anifeiliaid.

Blaenoriaeth 3: Rhannu gwybodaeth, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth (information ac intelligence) yn effeithiol er mwyn cefnogi rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid effeithiol.

- 3.1 Mae Cynllun Strategol yr ASB yn cyfeirio at 'bwysigrwydd parhau i ddatblygu a defnyddio sail dystiolaeth gadarn' yn ein gwaith ac ymrwymiad i 'gasglu a defnyddio tystiolaeth i nodi a deall y risgiau a'r heriau mwyaf'. Mae casglu a chyfnewid gwybodaeth, data a gwybodaeth (*intelligence*) rhwng Awdurdodau Cymwys, Adrannau Llywodraeth Ganolog, Aelod-wladwriaethau a'r diwydiant yn elfen allweddol o system rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol effeithiol.

- 3.2 Gydag ymadawriad y DU o'r UE, rydym ni mewn cyfnod o ansicrwydd ynglŷn â'n partneriaid masnach byd-eang yn y dyfodol. Mae diwydiant allforio bwyd anifeiliaid a bwyd y DU, sy'n werth £11 biliwn ar hyn o bryd, yn cyfrif am 60% o allforion ac mae'n hanfodol bod rheolaethau swyddogol y dyfodol yn rhoi sicrwydd i bartneriaid masnachu'r DU. Fel unrhyw ddiwydiant mawr arall, mae'n agored i amrywiaeth eang o weithgarwch troseddol.
- 3.3 Disgwylir i ALLau:
- a) Mynd ati'n rhagweithiol i rannu â'r [Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd](#) unrhyw wybodaeth (intelligence) sy'n eu cyrraedd am achosion y maent yn gwybod amdanynt, neu rai y maent yn eu hamau, o ran twyll bwyd/bwyd anifeiliaid, gan gynnwys achosion hanesyddol;
 - b) Yn Lloegr yn unig, llenwi adroddiadau bob dwy flynedd NTS yn gynhwysfawr o ran gweithgarwch bwyd anifeiliaid [wedi'i fewnforio](#) a [mewndirol](#)
 - c) Gweithredu'r [Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth](#) ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid rhwng y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru a Lloegr sy'n cefnogi ymagwedd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer gorfodi, yn atal dyblygu gwaith ac yn cynorthwyo defnydd effeithiol o adnoddau;
 - d) Sicrhau bod eu cronfeydd data yn adlewyrchiad cywir o'r holl weithgareddau a gynhelir gan fusnesau bwyd anifeiliaid a bod y sefydliadau hyn wedi'u cofrestru'n briodol, gan ystyried canllawiau'r [ASB](#) ac ACTSO ar:
 - [Cofrestru, diwygio a diddymu gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid o dan Reoliad \(CE\) Rhif 183/2005](#);
 - [Gair i gall ar reoli cronfeydd data bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol](#).
- 3.4 Mewn achosion lle maent yn gyfrifol am bwynt mynediad, mae disgwyl i ALLau:
- a) Roi ystyriaeth i [ganllawiau](#) ACTSO ar rannu gwybodaeth (*information ac intelligence*) i gefnogi'r broses o weithredu rheolaethau bwyd anifeiliaid a gaiff ei fewnforio;
 - b) Trafod ag awdurdodau mewndirol a mynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth yn unol â chanllawiau ACTSO ar [atgyfeiriadau mewndirol](#). Os oes cais, disgwylir i ALLau gydnabod ac ymateb i'r awdurdod tarddiad mewn perthynas â chyfeirio mewndirol, er mwyn cadarnhau'r camau a gymerwyd. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau mewndirol i gynnal gwiriadau i sicrhau bod sefydliadau:
 - Ar gofrestr sefydliadau bwyd anifeiliaid ALLau?
 - Wedi'u cynnwys yn eu rhaglen arolygu er mwyn gallu cymryd camau dilynol fel sy'n briodol?
 - [Cynrychiolydd 3^{ydd} gwlad](#) o fewn yr UE, fel sy'n briodol?
 - c) Dylid ystyried cysylltu â'r ALI sy'n gyfrifol am y Man Cyrraedd Dynodedig mawr agosaf ar gyfer bwyd anifeiliaid, neu bwynt cyswllt priodol arall. Gellir defnyddio eu harbenigedd a'u cydweithrediad i gynorthwyo wrth roi system gymesur o reolaethau swyddogol ar waith, gan ystyried canllawiau'r ASB ar:

- Reolaethau mewnforio mewn [porthladdoedd a meysydd awyr llai](#) ;
- Gwiriadau bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd gan [awdurdodau mewndirol](#),

Blaenoriaeth 4: Monitro llwythi (*consignments*) o fwyd anifeiliaid sy'n dod o du allan i'r Undeb Ewropeaidd wrth y pwyntiau mynediad yn effeithiol

- 4.1 Mae 40% o'r bwyd anifeiliaid a ddefnyddir yn y DU yn flynyddol wedi'i fewnforio. Er mwyn cefnogi dull cyson sy'n seiliedig ar risg ar gyfer monitro mewnforion o drydydd gwledydd, disgwylir i ALLau:
- a) Flaenoriaethu monitro mewn perthynas â [chanllawiau](#) ACTSO ar gysondeb a blaenoriaethu cyflawni rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol wrth y pwyntiau mynediad;
 - b) Monitro llwythi o fwyd anifeiliaid i sicrhau:
 - Bod cynhyrchion sydd ar y rhestr o gynhyrchion risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn [Atodiad I Rheoliad \(CE\) Rhif 669/2009](#) yn cael mynediad i'r DU ar ôl mynd drwy Fan Cyrraedd Dynodedig priodol gyntaf, wrth ystyried [canllawiau](#)'r ASB;
 - Bod cynhyrchion sy'n destun rheolaethau diogelu o achos halogi afflatocsinau yn [Atodiad I Rheoliad \(UE\) Rhif 884/2004](#), yn cael mynediad i'r DU ar ôl mynd drwy Fan Mewnforio Dynodedig priodol, wrth ystyried [canllawiau](#) yr UE.

Mae rhestr o [Fannau Cyrraedd Dynodedig](#), [Mannau Mewnforio Dynodedig](#), a '[mesurau diogelu](#)' sy'n berthnasol i fewnforio bwyd anifeiliaid ar wefan yr ASB.

Blaenoriaeth 5: Datblygu rhaglenni samplu rhanbarthol seiliedig ar risg

Targedu arian sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr ar gyfer samplu

- 5.1 Mae'r ASB o'r farn bod samplu a dadansoddi yn rhan bwysig o reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid y DU. Prif amcanion samplu bwyd anifeiliaid yw:
- a) Diogelu iechyd anifeiliaid a phobl;
 - b) Hyrwyddo masnach deg ac atal arferion gwael;
 - c) Canfod gweithgarwch twyllodrus;
 - d) Rhoi cyngor a chefnogaeth i fusnesau.
- 5.2 Mae rhaglen samplu a ariennir yr ASB eleni wedi'i llywio gan AFTA'r DU 2017. I sicrhau y caiff yr arian sydd ar gael i ddadansoddi bwyd anifeiliaid ei ddefnyddio'n effeithiol, dylai ALLau:
- a) Lynu at y dair egwyddor isod;
 - b) Ystyried [canllawiau](#) ACTSO ar sut i gynllunio a chymryd samplau;
 - c) Talu sylw i'r cyfyngiadau ym mharagraff 5.3 ond hefyd y caveat ym mharagraff 5.4.

Egwyddor 1

- Mabwysiadu dull rhanbarthol o ddatblygu rhaglen samplu a gaiff ei gyd-gysylltu drwy'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Bwyd Anifeiliaid

Egwyddor 2

- Blaenoriaethu samplu er mwyn diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid

Egwyddor 3

- Blaenoriaethu samplu i ganfod gweithgarwch twyllodrus sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl a/neu anifeiliaid

5.3 Disgwylir i ALLau sicrhau bod:

- a) Yr holl samplu yn ystyried canlyniadau blaenorol o ddadansoddiadau a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd anifeiliaid a gwaith samplu a dadansoddi y gweithredwr ei hun;
- b) Caiff deunyddiau bwyd anifeiliaid yn hytrach na bwyd anifeiliaid cyfansawdd eu blaenoriaethu wrth brofi am bresenoldeb [sylweddau annymunol](#), oni bai bod rheswm da i gredu nad yw'r systemau sydd ar waith i atal halogi wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid yn effeithiol;
- c) Nid yw cynhyrchion sy'n ymddangos yn Atodiad 1 Rheoliad (CE) Rhif 669/2009 ar fwydydd risg uchel yn cael eu blaenoriaethu gan y dylent eisoes fod yn destun lefelau uwch o reolaethau swyddogol ar bwyntiau mynediad.

5.4 Os yw ALI neu Ranbarth, ar sail gwybodaeth (*intelligence*), a gyda'r nod o ddilysu perygl posibl i ddiogelwch bwyd anifeiliaid, pobl a/neu iechyd a lles anifeiliaid a/neu effaith economaidd sylweddol, yn pennu bod angen cynnal gwaith samplu ar wahân i'r hyn sy'n digwydd yn y rhaglenni samplu cenedlaethol – cânt eu hannog i wneud hynny. Ond bydd yn rhaid i hyn gael ei ariannu'n lleol

Blaenoriaethau Samplu wrth Fannau Cyrraedd Dynodedig

5.5 Mae samplu bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd yn fecanwaith allweddol i sicrhau diogelwch ac ansawdd y bwyd a'r bwyd anifeiliaid sy'n dod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE.

5.6 Dylai pob ALI sydd â chyfrifoldeb dros bwyntiau mynediad:

- a) Gynnwys darpariaeth yn eu rhaglenni rhanbarthol i samplu cynhyrchion ar y pwynt mynediad ar sail risg. Yn ogystal;
- b) Dylai ALLau flaenoriaethu'r broses o samplu a dadansoddi cynhyrchion, yn arbennig ychwanegion a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n dod o du allan i'r UE er mwyn asesu cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid;
- c) Dylai ALLau ystyried [canllawiau](#) ACTSO ar gysondeb a blaenoriaethu wrth gyflawni rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid wrth y pwynt mynediad mewn perthynas â blaenoriaethu samplu ar y pwynt mynediad;
- d) Dylid blaenoriaethu'r gwaith o samplu llwythi nad ydynt wedi'u samplu'n ddiweddar, neu nad ydynt wedi'u gweld yn flaenorol ar y pwynt mynediad, neu lle bo rheswm i gredu nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion yr UE.

- 5.7 Mae'r blaenoriaethu samplu hyn yn ychwanegol, ac ar wahân, i unrhyw samplu a all fod yn ofynnol fel rhan o 'fesurau diogelu' penodol ar fwyd anifeiliaid.

Blaenoriaeth 6: Mynd ati i nodi gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu bwyd cynradd yn effeithiol, a'u cofrestru'n briodol

- 6.1 Roedd [archwiliad](#) y Comisiwn Ewropeaidd o'r DU yn gwerthuso system rheolaethau swyddogol mewn perthynas â diogelwch microbaidd cynhyrchion cynradd nad ydynt yn dod o anifeiliaid. Un argymhelliad oedd bod yn rhaid i reolaethau ystyried y peryglon a nodwyd i ddiogelwch bwyd yng ngoleuni [safbwyntiau EFSA](#) ar y peryglon microbiolegol a welir mewn bwydydd parod i'w fwyta.
- 6.2 Bydd nodi busnesau 'bwyd parod i'w fwyta' risg uwch sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd yn cynorthwyo wrth gyflwyno rhaglen arolygu hylendid bwyd yn y dyfodol sy'n targedu ac yn blaenoriaethu ymhellach, er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd a diogelu iechyd y cyhoedd yn well wrth leihau pwysau arolygu ar fusnesau.
- 6.3 Disgwylir i ALLau flaenoriaethu:
- a) Y broses o nodi a dosbarthu gweithgarwch busnesau 'bwyd parod i'w fwyta' risg uwch sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd yn eu hardal. Ar gyfer 2018-2019, rhain yw cynhyrchwyr micro ddail, dail babi, perlysiâu, berwr dwr, letys, ysbigoglys, mefus, nionod/winwns salad, radish, seleri, sicori, gan ystyried [canllawiau'r](#) ASB;
 - b) Sicrhau bod cronfeydd data ALLau yn adlewyrchu'n gywir y gweithgarwch a gynhelir gan Weithredwyr Busnesau Bwyd (FBO) a bod y sefydliadau hyn wedi'u cofrestru'n briodol.